

# Defnyddio mwy nag un iaith gyda'ch plentyn



Defnyddir 'ddwyieithrwydd' yma i gynrychioli unrhyw un sy'n gallu deall a defnyddio mwy nag un iaith.

Gall defnyddio mwy nag un iaith gael ei alw'n ddwyieithrwydd neu amlieithrwydd.

Mae bod yn ddwyieithog yn ased, ac nid yw defnyddio mwy nag un iaith gyda phlentyn yn ei wneud yn fwy tebygol o gael anawsterau wrth ddysgu siarad.

## Bod yn ddwyieithog

- Mae bod yn ddwyieithog yn ased a gall helpu plant i gysylltu â'u diwylliant, siarad ag aelodau o'u teulu a chymdeithasu ag eraill.
- Mae gan blant un iaith orau yn bennaf, a hon yw eu iaith dewisol. Mae cerrig milltir cynnar fel dweud eu gair cyntaf a rhoi geiriau at ei gilydd fel arfer ar amser yn eu iaith dewisol.
- Bydd tua 10% o blant yn cael anawsterau hirdymor gyda iaith. Mae gan blant dwyieithog yr un siawns o gael anawsterau wrth ddysgu siarad â phlant sydd ond yn dysgu un iaith.
- Weithiau, mae gan blant dwyieithog eirfa lai ym mhob iaith y maent yn ei dysgu. Ond pan fyddwch yn cyfrif nifer y geiriau gwahanol y maent yn eu defnyddio yn y ddwy iaith, fel arfer mae ganddynt y nifer disgwylidig o eiriau yn gyffredinol ar gyfer eu cam datblygu.
- 'Newid cod' yw pan fo person dwyieithog yn dweud y rhan fwyaf o frawddeg mewn un iaith ond yn cyfnewid 1-2 gair am iaith arall. Mae hyn yn normal ac mae'n ffordd iddynt 'fenthycu' geiriau i wneud y gorau o'u hieithoedd.

## Pa iaith i'w defnyddio?

- Mae'n bwysig defnyddio'r iaith (neu'r ieithoedd) yr ydych yn hyderus ynddi bob amser, i wneud yn siŵr eich bod yn rhoi modelau iaith naturiol a chyfoethog i'ch plentyn (eich iaith dewisol).
- Dychmygwch fod iaith fel bachyn cot. Pan fyddwch yn defnyddio iaith rydych yn dda ynddi, rydych chi'n modelu amrywiaeth eang o eiriau, gramadeg, brawddegau a synau sy'n gywir – mae hyn yn sicrhau gwybodaeth plentyn am iaith (y bachyn cot) yn ddiogel ar y wal. Yna bydd ganddyn nhw sylfaen gadarn ar gyfer iaith arall.

Cael rhagor o wybodaeth

## Mae cefnogi plentyn sy'n ddwyieithog yr un fath â chefnogi unrhyw blentyn arall:

- Mae babanod yn cael eu geni gyda'r gallu i adnabod yr iaith a glywsant yn y groth, felly dechreuwch ddefnyddio eich iaith dewisol yn ystod beichiogrwydd pan fyddwch chi'n siarad â'ch bwmp.
- Ymunwch â chwarae eich plentyn a dilyn ei arweiniad. Siaradwch am yr hyn mae eich plentyn yn edrych arno neu'n ei wneud yn eich iaith dewisol. Defnyddiwch amrywiaeth o eiriau i labelu, disgrifio gweithredoedd a siarad am sut mae pethau'n edrych; teimlo; swnio; blasu, beth maent yn ei wneud, ble maen nhw ac ati.
- Rhannwch lyfrau yn y ddwy iaith. Peidiwch â phoeni am ddarllen y geiriau, gallwch siarad am y lluniau neu greu stori.
- Os ydych chi'n defnyddio eich iaith dewisol, efallai y bydd eich plentyn yn ymateb gydag un arall, fel iaith y lleoliad. Mae hyn yn normal a gallwch barhau i ddefnyddio eich iaith dewisol i helpu'ch plentyn i ddysgu hynny hefyd.
- Weithiau mae plant yn mynd trwy 'gyfnod tawel' pan fyddant yn dechrau lleoliad sydd ag iaith wahanol i'r iaith a siaredir gartref. Arhoswch i weld sut mae eich plentyn yn setlo i mewn, a pheidiwch â rhoi pwysau ar eich plentyn i siarad.
- Cofiwch dderbyn a chanmol cyfathrebu ym mha bynnag iaith mae'r plentyn yn dewis ei defnyddio

Adnoddau ar-lein:  
Oxford Brookes Babylab

Tiny Happy People,

Neges allweddol Siarad Gyda Fi 2